


Cyrff llywodraeth leol llai o faint yng Nghymru Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2017

Rhaid i gyrff llywodraeth leol llai o faint yng Nghymru baratoi cyfrifon blynyddol gan ddilyn arferion priodol fel y'u nodir yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol (SLCC) **Governance and accountability for local councils in Wales – A Practitioners' Guide 2006** (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn nodi y gall cyrff baratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Y cyfrifon a'r broses archwilio

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.



Darllenwch y canllawiau ar gwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon a chwblhewch bob adran mewn coch gan gynnwys drwy adran y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae'n bosibl y bydd ffurflenni anghyflawn neu anghywir yn gofyn am waith archwilio allanol ychwanegol ac yn arwain at gostau ychwanegol. Anfonwch y Ffurflen Flynyddol **wreiddiol**, ynghyd â'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Oni ofynnir i chi wneud hynny, **peidiwch** ag anfon unrhyw gofnodion ariannol gwreiddiol na chofnodion eraill at yr archwilydd allanol.

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd at y corff at ddibenion cyhoeddi neu arddangos y datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Rhestr wirio cwblhau

Bydd ateb 'Naddo' yn golygu nad ydych o bosibl wedi bodloni'r gofynion		Gweithredwyd?	
Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol		Do	Naddo
Cyfrifon	A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu ac a yw'r corff wedi cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol (fel y dangoswyd gan y llofnodion perthnasol), erbyn 30 Mehefin 2017 fan bellaf?	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
	A yw'r cyfrifon yn adio'n gywir ac a yw'r balans a gaiff ei gario ymlaen o'r llynedd yn cyfateb i'r balans agoriadol eleni?	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
	A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol, gan gynnwys dadansoddiad wedi ei fesur o'r newidiadau rhwng y llynedd ac eleni?	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
	A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2017 yn gyson â llinell 9?	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Pob adran	A yw'r holl flychau coch wedi'u cwblhau ac a oes esboniadau wedi'u rhoi lle bo angen?	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Tystiolaeth ategol	A yw'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr archwilydd allanol wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Dylech gyfeirio at yr hysbysiad o'r archwiliad ac unrhyw amserlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Datganiadau cyfrifyddu 2016-17 ar gyfer:

Enw'r corff:

Cyd-Bwyllgor Anghenion Arbennig (Cynghorau Gwynedd a Môn)

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon
	31 Mawrth 2016 (£)	31 Mawrth 2017 (£)	Dylech dalgrynnu'r ffigurau i'r £ agosaf. Ni ddylech adael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.

Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau

1. Balansau a ddygwyd ymlaen	150,530	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	1,314,723	1,266,874	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	2,119	12,429	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod llai'r symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeiwr.
4. (-) Costau staff	-1,210,944	-1,153,082	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig e.e. costau terfynu.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	-256,428	-126,221	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod llai costau staff (Llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (Llinell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6).

Datganiad o falansau

8. (+) Dyledwyr a balansau stoc	31,662	519,982	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff a balansau stoc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	13,948	-475,178	Pob cyfrif: Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc.
10. (-) Credydwyr	-45,610	-44,804	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	0	Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod: Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	0	0	Gwerth gwreiddiol cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthygiad o drydydd partiön ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

14. Nodyn datgelu cronfeydd ymddiriedolaeth	Ydy	Nac ydy	Dd/G	Ydy	Nac ydy	Dd/G	Mae'r corff yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ac mae'n gyfrifol am reoli (a) cronfa/cronfeydd ymddiriedolaeth/ asedau (dylai darllenwyr nodi nad yw'r ffigurau uchod yn cynnwys unrhyw drafodion ymddiriedolaeth).
	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1)

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad	
	Do	Naddo*			
1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. 	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y rhagnodir gan y gyfraith.	6, 12	
2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7	
3. Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6	
4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio a gofyn cwestiynau am gyfrifon y corff.	6, 23	
5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff a delio â hwy'n briodol.	6, 9	
6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8	
7. Rydym wedi ystyried a oes unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6	
8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilywyr mewnol ac allanol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilywyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23	
9. Cronfeydd ymddiriedolaeth – yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi: <ul style="list-style-type: none"> cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ariannol a, lle y bo angen, cynnal archwiliadau annibynnol. 	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	Cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol.	3, 6

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2)

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Dangosydd Perfformiad
	Do	Naddo*		
<p>1. Rydym wedi cofrestru fel cyflogwr â Chyllid a Thollau EM (CThem) ac rydym yn gweithredu Talu Wrth Ennill (TWE) yn briodol fel rhan o'n trefniadau cyflogres; neu</p> <p>Nid oes angen i ni gofrestru ar gyfer TWE oherwydd nid oes unrhyw un o'n cyflogeion yn cael eu talu £112 neu fwy yr wythnos, yn cael treuliau a buddiannau, yn dal swydd arall nac yn cael pensiwn.</p>	☉	☉	Wedi cofrestru fel cyflogwr ac yn gweithredu TWE yn briodol oni bai bod pob un o'r meini prawf eithrio wedi cael eu bodloni.	13
<p>2. Rydym wedi cynnal cofnodion cyflogres priodol ar gyfer pob un o'n cyflogeion gan gynnwys didyniadau treth ac yswiriant gwladol.</p>	☉	☉	Cadw cofnodion o daliadau a wnaed i gyflogeion gan gynnwys buddiannau neu dreuliau trethadwy a thaliadau a wnaed i CThem.	13
<p>3. Rydym wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad sy'n nodi'r safonau ymddygiad priodol a ddisgwylir gan gynghorwyr ac mae pob un ohonom wedi cytuno i gydymffurfio â'r cod.</p>	☉	☉	Mae'r corff a'i aelodau wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad ac wedi cytuno i gydymffurfio ag ef fel sy'n ofynnol o dan y gyfraith.	8

* Dileer fel y bo'n briodol.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor

Y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

<p>Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol</p> <p>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.</p>	<p>Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor</p> <p>Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod:</p> <p>Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (Cynghorau Gwynedd a Môn) 23 Mehefin 2017</p>
<p>Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol: <i>[Signature]</i></p>	<p>Llofnod y Cadeirydd: <i>[Signature]</i></p>
<p>Enw: Dafydd L Edwards</p>	<p>Enw: BETHAN WYN LAWTON</p>
<p>Dyddiad: Swyddog Cyllid Statudol Cyngor Gwynedd 19/6/17</p>	<p>Dyddiad: 23-6-17</p>

Ailgymeradwyaeth ac ailardystiad gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (dim ond os bydd y ffurflen flynyddol wedi ei diwygio yn yr archwiliad)

<p>Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol</p> <p>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.</p>	<p>Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor</p> <p>Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod:</p> <p>Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (Cynghorau Gwynedd a Môn) 23 Mehefin 2017</p>
<p>Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:</p>	<p>Llofnod y Cadeirydd:</p>
<p>Enw:</p>	<p>Enw:</p>
<p>Dyddiad:</p>	<p>Dyddiad:</p>

Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd ganddo. Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ar gyfer:

CYD - BWYLLGOR ANGHENION ARBENNIG (CYNGHORAU GWYNERD A MON)

Adroddiad yr archwilydd allanol

~~Ac eithrio'r materion a nodir isod~~ Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

~~[[Mae'r materion hyn yn ogystal â]] Materion eraill nad ydynt yn effeithio ar ein barn yr ydym yn eu dwyn i sylw'r corff a'n argymhellion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad i'r corff dyddiedig _____.]~~

Materion eraill ac argymhellion

~~Ar sail ein hadolygiad, tynnwn sylw'r corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar ein barn archwilio ond y dylai'r corff ymdrin â hwy.~~

~~(Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.)~~

Enw'r archwilydd allanol:

ANTHONY JAMES BARRETT

Llofnod yr archwilydd allanol:

AS Barrett

Dyddiad:

29/9/17

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

* Dileer fel y bo'n briodol.

Adroddiad archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff:

Cyd-Bwyllgor Anghenion Arbennig (Cynghorau Gwynedd a Mon)

Mae archwiliad mewnol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2017.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Dd/G	Heb ei gynnwys**	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
5. Cafodd yr incwm disgwylidig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
6. Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
7. Talwyd cyflogau i gyflogaion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Dd/G	Heb ei gynnwys**	
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
11. Cronfeydd ymddiriedolaeth (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusenol). Mae'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun

Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Dd/G	Heb ei gynnwys**	
12. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
13. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun
14. Nodwch y maes risg	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input checked="" type="radio"/>	<input type="radio"/>	Mewnosodwch destun

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor dyddiedig 6 Mehefin 2017.] * Dileer os nad oes adroddiad wedi'i baratoi.

Cadarnhau archwiliad mewnol

Cadarnhaf nad wyf, fel archwilydd mewnol y Cyngor, wedi ymgymryd â rôl rheoli na gweinyddol o fewn y corff nac fel aelod o'r corff yn ystod blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Luned Fôn Jones

Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: *Luned Fôn Jones*

Dyddiad: 14/06/2017

Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau Ffurflen Flynyddol

1. Rhaid i chi gymhwyso arferion priodol wrth baratoi'r ffurflen flynyddol hon. Am gyfarwyddyd darllenwch y Canllaw i Ymarferwyr (**Governance and accountability for local councils: A Practitioners's Guide (Wales)**) – ar gael gan Un Llais Cymru ac SLCC. Mae'n cynnwys popeth sydd ei angen arnoch ar gyfer yr archwiliad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r archwiliad statudol.
2. Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru (www.audit.wales/good-practice/finance/community-council-money) yn darparu rhagor o wybodaeth am y broses cyfrifon ac archwilio ynghyd â chanllawiau ar faterion llywodraethu.
3. Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn h.y. dim blychau coch gwag. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u tynnu at sylw'r corff gyda llythrennau cyntaf eich enw wrth eu hymyl a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd allanol. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Caiff ffurflenni blyneddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio a gall olygu costau ychwanegol.
4. **Mae dau flwch i'r corff eu hardystio a'u cymeradwyo yn awr. Dim ond os bydd yn rhaid diwygio'r ffurflen flynyddol o ganlyniad i'r archwiliad y bydd angen yr ail flwch. Dim ond cyn anfon y ffurflen at yr archwilydd y dylech gwblhau'r blwch uchaf.**
5. Gofynnwch i ail berson, y Cadeirydd neu aelod efallai, adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon y ffurflen wreiddiol at yr archwilydd.
6. Gwnewch yn siŵr bod eich datganiadau cyfrifyddu yn adio'n gywir, bod y balans a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol (llynell 7 o 2016) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (llynell 1 o 2017). Esboniwch unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau 2016 ar y ffurflen flynyddol hon a'r symiau a gofnodwyd yn ffurflen flynyddol y llynedd.
7. Rhowch esboniad llawn am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Peidiwch ag anfon copi o'ch cofnodion cyfrifyddu manwl yn lle'r esboniad hwn. Mae'r archwilydd allanol am wybod eich bod chi'n deall y rhesymau dros yr holl amrywiannau. Cofiwch gynnwys dadansoddiad manwl i ategu eich esboniad a byddwch yn benodol ynghylch gwerthoedd elfennau unigol sy'n gyfrifol am yr amrywiannau.
8. Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r copi o'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau ariannol. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Os oes gan eich Cyngor unrhyw fuddsoddiadau byrdymor, nodwch eu gwerth ar y cysoniad banc. Dylai'r archwilydd allu cytuno ar eich cysoniad banc â llynell 9 yn adran 1. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr*.
9. Mae'n ofynnol i **bob** corff bach bellach anfon gwybodaeth at yr archwilydd allanol, i ategu'r honiadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blyneddol. Bydd eich archwilydd yn dweud wrthy'ch pa wybodaeth sydd angen i chi ei darparu. Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad archwilio yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Dylech anfon copïau o'r cofnodion gwreiddiol (a ardystiwyd gan y Clerc a'r Cadeirydd fel copïau cywir) at yr archwilydd allanol ac nid y dogfennau gwreiddiol eu hunain.
10. Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd.
11. Os bydd yn rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nas gofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc anghyflawn neu esboniad o amrywiannau neu os caiff ddogfennau gwreiddiol y mae'n rhaid eu dychwelyd, bydd yr archwilydd yn mynd i gostau ychwanegol y mae ganddo hawl i godi ffioedd ychwanegol amdanynt.
12. **Peidiwch â chwblhau Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.** Bydd yr archwilydd allanol yn cwblhau hyn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru pan fydd yr archwiliad wedi ei gwblhau.
13. **Dylech ateb pob gohebiaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon.** Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn lleihau cost yr archwiliad.
14. **Noder, os byddwch yn cwblhau'r ffurflen electronig, rhaid i chi argraffu'r ffurflen er mwyn iddi gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i llofnodi gan y Cadeirydd cyn iddi gael ei hanfon at yr archwilydd.**